
# 15–21 Hydref 2017

ROOTS
Taflen i blant

## Mathew 22.1–14

Mae Iesu'n adrodd stori am wledd briodas ble mae'r rhai sydd wedi eu gwadd yn gwrthod dod. Mae'n ein dysgu am bwysigrwydd bod yn barod i ymateb yn gadarnhaol i wahoddiad Duw.


**Beth yw'r gwahoddiad gorau a gefaist ti erioed?**



**Iesu'n adrodd stori am frenin sy'n gwadd gwesteion i wledd briodas ei fab, ond maen nhw'n gwrthod dod. Felly mae'n gwadd gwesteion eraill yn eu lle.**


## Gweithgaredd 1

**Meddylia am ddau esgus dros y gwesteion a wrthododd ddod i'r wledd. Meddylia am ddau ateb dros y gwesteion a gafodd eu gwadd yn annisgwyl.**



## Gweithgaredd 2

**Chwilia dy ffordd drwy'r ddrysfa at y wledd.**



## Gweddi

**Maddau i ni, Dduw,
ein bod mor brysur yn ein bywydau,
fel na fyddwn yn ymateb i'th wahoddiadau.
Helpa ni i fod yn barod
i dderbyn dy anrhegion da. Amen.**

## Byw mewn ffydd

**Gweddïa dros y bobl rwyt yn sylwi arnynt sydd yn aml wedi eu gadael allan, a chwilia am ffyrdd i'w cynnwys.**

## Yn ychwanegol

Y Wledd Fawr, *Beibl.net 365 storiau o'r Beibl*, tud 316

© ROOTS for Churches Limited www.rootsontheweb.com